

YMCHWIL CYMDEITHASOL RHIF: 62/2019  
DYDDIAD CYHOEDDI: 04/12/2019

# Adroddiad Cymru: Ymchwil defnyddwyr i lywio dyluniad Cynllun Dychwelyd Ernes effeithiol

## Crynodeb Gweithredol

### 1. Nodau a Methodoleg yr Ymchwil

- 1.1. Mae'r crynodeb gweithredol hwn yn cyflwyno crynodeb o ganfyddiadau rhaglen ymchwil defnyddwyr i lywio dyluniad Cynllun Dychwelyd Ernes (CDE) effeithiol. Egwyddor CDE yw bod defnyddwyr yn talu ffi ymlaen llaw ar ffurf ernes am gynhwysydd diod. Ar ôl yfed y ddiod, gellir dychwelyd y cynhwysydd a chael yr ernes yn ôl, ond os yw defnyddiwr yn dewis peidio â dychwelyd y cynhwysydd, bydd yn colli'r ernes.
- 1.2. Nod CDE yw:
  - Lleihau sbwriela
  - Cynyddu ailgylchu cynwysyddion diod sydd wedi'u cynnwys mewn CDE, yn enwedig y rhai hynny sy'n cael eu gwaredu oddi cartref
  - Gwella ansawdd deunyddiau drwy leihau halogiadau (er enghraifft pan roir deunyddiau anghywir yn y system (e.e. cewynnau yn y bin ailgylchu) neu pan gaiff y deunyddiau cywir eu paratoi yn y ffordd anghywir (e.e. bwyd yn cael ei adael ar ôl mewn cynwysyddion).
  - Hybu rhagor o gapasiti ailbrosesu domestig drwy ddarparu cyflenwad sefydlog ac o ansawdd uchel o ddeunyddiau gwastraff y gellir eu hailgylchu.

- 1.3. Comisiynodd Defra a Llywodraeth Cymru waith ymchwil yng Nghymru a Lloegr er mwyn deall sut y gallai CDE weithio.<sup>1</sup> Mae'r crynodeb hwn a'r adroddiad sy'n cyd-fynd ag ef yn canolbwyntio ar y canfyddiadau yng Nghymru, ac sy'n berthnasol i Gymru, ac mae'n darparu argymhellion ar sut y gellid cynllunio a chyflawni CDE sydd mor effeithiol â phosibl.
- 1.4. Cynhaliwyd ymchwil dull cymysg ar draws cyfres o elfennau ansoddol a meintiol, gyda phob un yn rhoi safbwyntiau sy'n cyd-fynd â'i gilydd i agweddau defnyddwyr tuag at CDE a'r defnydd tebygol ohono. Mae adroddiad Cymru yn canolbwyntio ar ganfyddiadau'r arolwg o Gymru a data ymchwil ansoddol yng Nghymru a Lloegr.
- 1.5. Cynhaliwyd yr ymchwil ansoddol gyda chyfranogwyr yng Nghymru a Lloegr. Roedd yn cynnwys dwy elfen allweddol:
- ymarfer dyddiadur ar-lein gyda sampl o 30 o oedolion a chwe phlentyn 11-15 oed, yn cofnodi'r ymddygiad yfed a gwaredu amser real ar gyfer diodydd mewn cynwysyddion, ac yna cyfweliadau i archwilio ymatebion unigol manwl i'r cynllun; a
  - trafodaethau grŵp gyda 70 o bobl, i annog pobl i rannu safbwyntiau gan alluogi ystyriaeth fwy cwmpasog o'r defnydd a'r dewisiadau tebygol ar gyfer dyluniad y cynllun.
- 1.6. Gyda chyfranogwyr o Gymru yn unig y cynhaliwyd yr ymchwil feintiol. Roedd hwn yn cynnwys dau arolwg panel ar-lein: arolwg 20 munud gyda 1,453 o oedolion 16 oed neu hŷn ac arolwg 15 munud gyda 372 o blant rhwng 11 a 15 oed. Arolygwyd plant 11 i 15 oed gan y cafwyd y farn bod y grŵp oedran hwn yn fwy tebygol o ddefnyddio eitemau y tu allan i'r cartref.

---

<sup>1</sup> Mae adroddiad ar wahân ar gael ar gyfer y canfyddiadau yn Lloegr. [Consumer Research to Inform Design of an Effective Deposit Return Scheme](#)

## 2. Canfyddiadau Allweddol

- 2.1. Roedd cyfanswm o 74% o'r oedolion a gymerodd ran yn yr arolwg o blaid CDE (roedd 10% yn erbyn, ac roedd 16% nad oedd o blaid nac yn erbyn). Er hynny, ar ôl ystyriaeth bellach, daeth y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr ansoddol i gwestiynu'r syniad o CDE, gan deimlo ei fod yn gofyn llawer gan ddefnyddwyr heb unrhyw fudd amgylcheddol cryf o ystyried bodolaeth ailgylchu ar garreg y drws.
- 2.2. Dywedodd rhwng 77% a 83% o gyfranogwyr yr arolwg y byddent yn defnyddio CDE bob tro neu gan amlaf ar gyfer pob un o'r pum math o gynhwysydd a ystyriwyd yn yr arolwg o ran diodydd sy'n cael eu hyfed gartref ac oddi cartref. Codwyd rhai pryderon gan gyfranogwyr ansoddol, gan gynnwys storio a chadw cynwysyddion diodydd, ymarferoldeb cario poteli gwydr trwm a chaniau a ddefnyddiwyd a pheidio gallu gwasgu poteli cyn eu dychwelyd.
- 2.3. Canfu'r arolwg fod cynwysyddion diodydd gwag yn fwy tebygol o gael eu hailgylchu gartref nag oddi cartref (94% o'i gymharu â rhwng 57% a 60%, yn dibynnu ar y math o gynhwysydd). Ategwyd hyn gan yr ymchwil ansoddol a ganfu, er bod y rhan fwyaf o gyfranogwyr wedi sefydlu arferion ar gyfer ailgylchu gartref, fod cyfleustra fel arfer yn cael blaenoriaeth oddi cartref; ac roedd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr yn cael gwared â chynwysyddion yn y bin agosaf, ac ailgylchu dim ond os oedd ysgogiad clir i wneud hynny.
- 2.4. Dywedodd ychydig o dan hanner y cyfranogwyr 16-24 oed ac 11-15 oed yr arolwg (46% a 47% yn y drefn honno) y gallai CDE leihau nifer y poteli neu'r caniau y maent yn eu prynu o lawer neu ychydig. Dim ond 5% o'r oedolion a 3% o'r plant a gymerodd ran yn yr arolwg a ddywedodd y byddent yn rhoi'r gorau i brynu'r mathau hyn o gynwysyddion yn gyfan gwbl.
- 2.5. O ran lefel yr ernes, 10c oedd y swm mwyaf poblogaidd ymhlith cyfranogwyr yr arolwg (37%). Gwelwyd mwy o gefnogaeth i ernes o 10c gan bobl hŷn a'r rhai hynny sydd mewn grwpiau cymdeithasol is. Daeth cyfranogwyr ansoddol i'r casgliad mai ernes o 15-25c fyddai fwyaf effeithiol ar gyfer sicrhau cydbwysedd rhwng bod yn ddigon uchel i gymell pobl i ddefnyddio'r cynllun ond nid mor uchel fel ei fod yn dylanwadu ar fforddiadwyedd. Roedd cyfranogwyr ansoddol yn ffafrio lefelau ernes sy'n rhifau crwn a bod darpar ddefnyddwyr yn gallu talgrynnu i unedau o werthoedd mwy yn rhwydd (o'r herwydd, roedd 20c a 25c

fel arfer yn cael eu ffafrio o gymharu â 15c). Roedd safbwyntiau cymysg ynghylch a ddylai swm yr ernes amrywio yn ôl maint y cynhwysydd.

- 2.6. Nododd cyfranogwyr ansoddol y dylai CDE gael ei gynllunio fel ei fod yn cydfynd â normau ymddygiad presennol, cymaint â phosibl. Dylai manau dychwelyd mewn archfarchnadoedd mawr fod yn gyflym ac yn rhwydd eu defnyddio. Dylid lleoli peiriannau mewn manau prysur hefyd (e.e. canolfannau trafnidiaeth, ysgolion a gweithleoedd) a dylid ystyried hwyluso dychwelyd eitemau yn rhan o wasanaethau danfon bwyd ar-lein.
- 2.7. Roedd yr arolwg a'r canfyddiadau ansoddol yn awgrymu y gallai pobl hŷn, y rhai mewn grwpiau cymdeithasol is, a'r rhai hynny nad oes car ganddynt ar gyfer yr aelwyd ei chael hi'n anoddach defnyddio CDE am resymau ymarferol ac ariannol.
- 2.8. Ystyriwyd mai'r cynllun 'hollgynhwysol', sef bod pob cynhwysydd yn cario'r un gost ar gyfer ernes ni waeth beth yw ei faint, yw'r mwyaf effeithiol gan ei fod yn cadw pethau'n syml o ran defnyddio'r cynllun yn rhwydd ac o ran treulio cyn lleied o amser â phosibl mewn manau dychwelyd.
- 2.9. Roedd yr arolwg yn cynnwys cyfres o gwestiynau gyda'r nod o ddarparu gwell ddealltwriaeth o'r ffactorau pwysicaf a ystyrir gan bobl wrth iddynt benderfynu defnyddio CDE, neu beidio. Lleoliad y pwyntiau dychwelyd oedd y sbardun mwyaf o ran y tebygolrwydd o ddefnyddio CDE, ac yna yr amser ychwanegol y mae'n ei gymryd i ddychwelyd y cynhwysyddion. Roedd yr ymatebwyr o'r farn bod swm yr ernes yn llai pwysig.

### **3. Goblygiadau ac argymhellion**

- 3.1. Mae canfyddiadau ymchwil ansoddol a meintiol yn awgrymu bod cefnogaeth sylfaenol i'r syniad o fentrau gan y llywodraeth i leihau gwastraff plastig (mater sy'n peri pryder mawr) ac i fynd i'r afael â sbwriela. Mae'r adroddiad yn rhoi argymhellion ar gyfer dyluniad CDE sy'n seiliedig ar y canfyddiadau hyn.
- 3.2. *Cyfathrebu*: Mae ymatebion yn yr ymchwil ansoddol yn awgrymu y bydd hi'n bwysig bod cyfathrebiadau yn gwrthddadlau'r canfyddiadau bod y cynllun yn rhoi'r baich o ailgylchu ar ddefnyddwyr yn annheg ac nad yw'n cynnig fawr o fudd o'i gymharu â'r ailgylchu presennol ar garreg y drws neu o'i gymharu â darparu gwell gyfleusterau ailgylchu ar y stryd. Oherwydd hynny, dylai'r cyfathrebiadau dynnu sylw at fanteision CDE, gan roi cyd-destun i swyddogaeth

y defnyddiwr a thawelu meddyliau ynghylch arferion presennol (e.e. swyddogaeth barhaus casgliadau ar garreg y drws).

- 3.3. *Mannau Dychwelyd*: Dylai'r manau dychwelyd ganiatáu i'r defnyddiwr dychwelyd cynwysyddion fel swmp yn gyflym ac yn rhwydd. Er y dylid lleoli manau dychwelyd mewn archfarchnadoedd mawr, bydd yn bwysig hefyd bod manau dychwelyd eraill ar gael yn ganolog ac yn lleol i sicrhau bod pawb yn gallu eu defnyddio nhw, gan fod yr arolwg wedi canfod bod unigolion mewn grwpiau cymdeithasol is a'r rhai hynny nad oes car ganddynt ar yr aelwyd yn llai tebygol o storio cynwysyddion gwag a'u dychwelyd i fannau dychwelyd.
- 3.4. *Cadw pethau'n syml*: Dylid cadw dyluniad y cynllun yn syml ac yn seiliedig ar y cynllun 'hollgynhwysol', sef bod pob cynhwysydd ag ernes â'r un gost.
- 3.5. *Ernes*: Dylai lefel yr ernes ddefnyddio rhifau crwn a fydd yn caniatáu i bobl dalgrynnu gwerth ernesau yn rhwydd; dylai'r ernes fod yn glir yn y man gwerthu ac ar gynwysyddion; a dylid darparu dewis o ddulliau ad-dalu, er yr ystyriwyd bod arian parod yn angenrheidiol i sicrhau bod pawb yn gallu ei ddefnyddio.

Awdur(on) yr Adroddiad: Alice Fitzpatrick, Alice McGee, Sophia Jouahri a Nick Roberts - Kantar

## **KANTAR**

Adroddiad Llawn o'r Ymchwil: Fitzpatrick, A., Jouahri, S., McGee, A. a Roberts, N. (2019). Adroddiad Cymru: Ymchwil defnyddwyr i lywio dyluniad cynllun dychwelyd ernes effeithiol. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth rhif 62/2019.> <https://llyw.cymru/ymchwil-gyda-defnyddwyr-i-arwain-y-gwaith-o-lunio-cynllun-dychwelyd-ernes-effeithiol>

Safbwyntiau'r ymchwilwyr yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:  
Isabella Malet-Lambert  
Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth  
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi  
Llywodraeth Cymru, Parc Cathays  
Caerdydd, CF10 3NQ

E-bost: [Isabella.malet-lambert@llyw.cymru](mailto:Isabella.malet-lambert@llyw.cymru)

**OGL** © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83933-555-6

